Mae angen eich help chi ar yr RAF!

SEFYLLFA

Mae'r RAF yn anelu at gyrraedd allyriadau **Sero Net** erbyn 2040.

Mae **sero net** yn golygu cyrraedd y cydbwysedd rhwng faint o nwy tŷ gwydr sy'n cael ei gynhyrchu (yn bennaf drwy losgi tanwyddau ffosil fel glo, olew a nwy) a faint sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer. Mae gwyddonwyr sy'n astudio newid yn yr hinsawdd yn dweud bod angen i ni gyrraedd **Sero Net** drwy ddisodli technoleg sy'n llygru â thechnoleg newydd a gwyrddach.

TASG YR RAF

Cyflawni **Sero Net** drwy ddefnyddio technoleg mwy gwyrdd mewn awyrennau ac mewn canolfannau RAF lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.

Eich TASG CHI

Meddyliwch am syniad a fydd yn helpu'r RAF i ddod yn fwy ecogyfeillgar a lleihau ei ôl troed carbon. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r awyrennau y maent yn eu hedfan, sut byddan nhw'n cael eu pweru neu sut mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn canolfan RAF.

Byddwn yn chwilio am y canlynol:

- Llun/diagram clir o'r syniad ar un dudalen A4 neu A34
- Sylwadau ar y llun/diagram sy'n esbonio'r syniad yn glir

Dyma'r categorïau oedran:

- Derbyn – Blwyddyn 2
- Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6

Mae'r gwobrau'n cynnwys:

- Diwrnod STEM am ddim ar gyfer y dosbarth buddugol
- Bag nwyddau RAF i enillydd pob dosbarth

Pob Lwc!

Sut mae cystadlu:

Rydym yn gwahodd ysgolion i lenwi'r ffurflen gofrestru a'i hatodi i bob ymgais a'u postio i: (Peidiwch â chynnwys unrhyw fanylion personol)

RAF Youth & STEM, RAFC Cranwell, Sleaford, Swydd Lincolnshire NG34 8HB.

ROYAL AIR FORCE Youth & STEM

CRN50_038

Ffurflen Gofrestru ar gyfer Cystadleuaeth Sero Net

Atodi at yr ymgais

Enw'r Ysgol .....

.....

Cyfeiriad yr Ysgol .....

.....

.....

Cyfeiriad e-bost cyswllt.....

.....

Categori (gallwch ddileu yn ôl yr angen)

Derbyn – Blwyddyn 2 Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6

Telerau ac Amodau

Ni ellir cyfnewid y gwobrau ac ni ellir eu trosglwyddo.

Peidiwch â chynnwys unrhyw fanylion personol.

Ni fydd yn bosibl dychwelyd pob ymgais

Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac yn rhwymol.

Y dyddiad cau ywr 1af o Ragfyr 2021

Pob lwc!

Youth and STEM Team, RAF Cranwell, Sleaford
Lincolnshire NG34 8HB.

Email: rafyouthengage@gmail.com

ROYAL AIR FORCE
Youth & STEM

CRN50_088